

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: Dydd Gwener, 27 Tachwedd 2009

Teitl: Prifysgolion yn dod at ei gilydd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Mae rhaglen chwe blynedd i astudio effaith newid yn yr hinsawdd ar y tir, y môr a'r atmosffer wedi cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r rhaglen ymchwil, sy'n werth £4 miliwn, yn dwyn ynghyd bron 200 arbenigwr o bedair prifysgol yng Nghymru a'i nod yw gwella ein dealltwriaeth o sut y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar amgylchedd y Ddaear a bywydau pob un ohonom.

Bydd y Consortiwm Newid Hinsawdd, sy'n cynnwys Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe, hefyd yn ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iâ a rhewlifoedd y blaned, a'r canlyniadau cymdeithasol.

Yn ogystal, bydd y Consortiwm, a elwir yn C3W, ac a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy CCAUC, yn darparu gwybodaeth at ddefnydd ysgolion, prifysgolion, busnesau a'r cyhoedd, a bydd yn trefnu gweithgareddau megis sioeau ffordd, sesiynau briffio, ac arddangosiad yn Amgueddfa Cymru.

Meddai'r Athro Philip Gummert, Prif Weithredwr CCAUC: "Dyma fuddsoddiad pwysig yn nyfodol ymchwil i newid yn yr hinsawdd yng Nghymru a'r DU, a bydd yn helpu'r sefydliadau, a C3W, i gael eu cydnabod yn rhyngwladol fel canolfan rhagoriaeth. Bydd yn ychwanegu at fuddsoddiadau diweddar eraill yng Nghymru mewn ymchwil i ddyfodol carbon-isel a chynaliadwyedd amgylcheddol, a bydd yn helpu i ddatblygu polisi yng Nghymru a thu hwnt.

“Bydd y tîm C3W yn datblygu graddedigion a chymrodyr ymchwil medrus mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau, a bydd yn darparu gwybodaeth awdurdodol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a hybu trafodaeth ar newid hinsawdd, ei effeithiau, a sut i'w lleddfu.”

Meddai Jane Hutt, y Gweinidog Addysg: “Newid hinsawdd yw un o'r sialensiau mwyaf sy'n wynebu'r byd heddiw ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i chwarae ei rhan wrth fynd i'r afael ag ef. Nod y project chwe blynedd hwn yw gwella ein dealltwriaeth o achosion, natur, amseriad a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â gwneud Cymru'n awdurdod cydnabyddedig yn y maes ymchwil hwn.”

Dyweddodd yr Athro Noel Lloyd, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth: “Y rhesymeg sy'n sail i'r C3W yw'r angen i gydnabod bod newid hinsawdd yn fater byd-eang o bwys. Mae consensws gwyddonol, yn benodol ymhlith aelodau o Banel Rhynglywodraethol Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (IPCC, 2007), fod cynhesu byd-eang a achosir gan ddyn yn realiti a'i fod yn prysur arwain at ganlyniadau na fydd modd gwneud dim yn eu cylch, megis tywydd eithafol, newidiadau o ran patrymau sychder a chynnydd yn lefelau'r môr.

“Cydnabyddir hefyd bod rhai o'r proffwydoliaethau sy'n ymwneud â chanlyniadau newid hinsawdd yn dod yn wir yn gynt na'r hyn a nodir yn adroddiad yr IPCC, ac mae Adroddiad Stern Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi rhoi sylw i oblygiadau ariannol peidio â gweithredu. Bydd yr ymchwil a gynhelir gan wyddonwyr C3W o fudd uniongyrchol i ymdrechion i ddatblygu gwell cynaliadwyedd.”

Dyweddodd yr Athro Merfyn Jones, Is Ganghellor Prifysgol Bangor: “Yn y blynyddoedd diweddar mae Bangor wedi datblygu proffil enwedig o gryf yng ngwyddoniaeth newid yn yr hinsawdd. Mae menter C3W yn adeiladu ymhellach ar seiliau gwaith cydnabyddedig y grwpiau ymchwil yng Ngholeg y Gwyddorau Naturiol, yn ogystal â'r gwaith ar y cyd â'n partner yn y Cyngor Ymchwil i'r

Amgylchedd Naturiol, sef Canolfan Ecoleg a Hydroleg yng Nghanolfan Amgylchedd Cymru. Bydd y gwaith cydweithredol hwn, sy'n cynnwys Cymru gyfan, yn hyrwyddo gwyddoniaeth ar newid yn yr hinsawdd ledled y wlad ac yn rhyngwladol."

Meddai Dr David Grant, Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd: "Mae'r agenda newid hinsawdd yn un eithriadol o bwysig a fydd yn effeithio ar hanfodion bywyd i lawer iawn o bobl ar hyd a lled y byd. Mae Prifysgol Caerdydd eisoes yn gweithio mewn rhai meysydd ymchwil cysylltiedig yng Nghymru megis egni carbon-isel a defnyddio egni'n effeithlon. Bydd aelodaeth o C3W yn ein galluogi i chwarae rôl flaenllaw yng nghyfraniad pellach y Brifysgol at ddyfodol mwy cynaliadwy i bawb, ac mewn rhaglen ymchwil amlddisgyblaethol gydweithiol ar draws Cymru i ddysgu am newid hinsawdd a'i ganlyniadau."

Dywedodd yr Athro Richard B Davies, Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe: "Rhaid i ymchwil i newid yn yr hinsawdd ymgodymu â her enfawr a bydd angen timau mawr ac ymagweddau amlddisgyblaethol i wneud cynnydd sylweddol. Rhaid i uchelgais y Consortiwm fod yn ddim llai na sefydlu Cymru fel canolfan sy'n arwain y byd ym maes ymchwil newid hinsawdd.

"Bydd dwyn ynghyd arbenigedd amrywiol o bob rhan o Gymru, yn sgil y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn creu'r màs critigol angenrheidiol. Bydd ymchwilwyr ar hyd a lled campws Abertawe yn cefnogi C3W, gan gynnwys rhewlifwyr, biolegwyr môr, modelwyr hinsawdd, cyfreithwyr, peirianwyr, ac arbenigwyr pennu oed. Rydym yn arbennig o frwdfrydig ynghylch y bwriad i gynnwys ysgolion, y cyhoedd, a chymunedau busnes ar draws Cymru yn y fenter."

Diwedd

Nodiadau

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225

emma.raczka@hefcw.ac.uk

Consortiwm Newid Hinsawdd – C3W

1. Bydd y Consortiwm Newid Hinsawdd (C3W) yn derbyn £4 miliwn dros gyfnod o chwe blynedd o 2009-10 hyd 2014-15 (gan ddechrau ar 1 Hydref 2009).
2. Mae ymchwil gwyddonol i newid hinsawdd yn gryf iawn yng Nghymru, sy'n gartref i grwpiau ymchwil newid hinsawdd cystadleuol ym Mhrifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Bydd ymagwedd fwy integredig yn sicrhau dealltwriaeth well byth o newid hinsawdd ac yn helpu i drosi rhagolygon hinsawdd ansicr yn rhagfynegiadau. Bydd ymagwedd integredig hefyd yn arwain at wneud penderfyniadau polisi mwy effeithiol.
3. Bydd C3W yn adeiladu ar yr arbenigedd mewn nifer o feysydd ymchwil newid hinsawdd yn y pedair prifysgol, ac yn anelu at greu gallu ymchwil integredig sy'n arwain y byd. Bydd maint a chymhlethdod y maes ymchwil hwn yn gofyn am ymagwedd amlddisgyblaethol nad yw fel rheol o fewn cyrraedd sefydliadau unigol.
4. Bydd C3W yn ategu buddsoddiadau eraill yng Nghymru mewn egni carbon-isel a defnyddio egni'n effeithlon (Y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel) a chynaliadwyedd amgylcheddol (Cynghrair y Biowyddorau a'r Amgylchedd).
5. Bydd C3W yn edrych ar y meysydd rhyngddisgyblaethol a ganlyn:
 - Modelu System y Ddaear
 - Newid yn Lefel y Môr
 - Gwerthuso Peryglon, Lleddfu ac Addasu
 - Y Dimensiwn Cymreig ar Newid Hinsawdd.

6. Bydd C3W yn cynnwys bron 200 o academyddion, a bydd yn helpu'r sefydliadau i gyhoeddi papurau a gwneud ceisiadau am grantiau.
7. Bydd C3W yn ymgymryd â gweithgareddau allanol i roi gwybodaeth i'r cyhoedd, drwy ymgysylltu â'r cwricwlwm ysgol, sefydliadau addysg bellach ac uwch, a'r cyhoedd. Bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys sioeau ffordd, sesiynau briffio, ac arddangosiad yn Amgueddfa Cymru.
8. Bydd C3W yn cael ei gynnal yn ariannol ar ôl y cyfnod cyllido drwy'r cynnydd a ragwelir mewn incwm o waith ymchwil, o ganlyniad i'r partneriaid yn mynd yn fwy cystadleuol yn y DU ac yn rhyngwladol.
9. Bydd arweinwyr a chydlynwyr a ddewisir o blith academyddion hŷn yn y pedair prifysgol yn rheoli gweithgareddau ymchwil C3W o ddydd i ddydd. Prifysgol Aberystwyth fydd y sefydliad arweiniol a bydd felly'n gyfrifol am gydlynw agweddau ariannol a gweinyddol ar C3W.

Daw'r cyllid ar gyfer y Consortiwm drwy **Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio** CCAUC a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2002 i gefnogi ail-lunio'r sector addysg uwch (AU) yng Nghymru er mwyn gwella ei berfformiad yn sylweddol a'i wneud yn fwy cystadleuol.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chysiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.